# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 4 Chwefror 2014** |
| Amser: | **09:00 – 10:55** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_500000_04_02_2014&t=0&l=en

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar)**<br>**Mike Hedges**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Sandy Mewies** |
| Tystion: | **Peter Jones (Welsh Govt), Llywodraeth Cymru**<br>**Professor Jean White, Chief Nursing Officers**<br>**Peter Wiles, NHS Wales**<br>**Anthony Barrett, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Dave Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Mike Usher, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

## 2 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

2.1 Bu'r Pwyllgor yn holi'r Athro Jean White, Prif Swyddog Nyrsio, Peter Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Digital Health and Care a Peter Wiles, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Polisi a Pherfformiad ynglŷn ag arlwyo a maeth mewn ysbytai.

2.2 Cytunodd yr Athro White i anfon rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r ffordd y mae'r rhaglen hyfforddi maeth e-ddysgu'n cael ei hariannu a'r amserlen ar gyfer cynnwys yr holl hyfforddiant ar holl gofnodion staff electronig.

2.3 Cytunodd yr Athro White i ysgrifennu at y Pwyllgor ym mis Ebrill gyda gwerthusiad o'r cynllun peilot sy'n cael ei gynnal ar wastraff bwyd yn Ysbyty Llandochau ym mis Mawrth. Byddai hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau y mae'r byrddau iechyd yn eu cael gydag awdurdodau lleol ynglŷn â chasglu gwastraff bwyd. Cytunodd hefyd i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ffordd y mae hyfforddiant cyn-gofrestru'n cael ei grynhoi.

## 3 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllŵg: Ymateb Swyddfa Archwilio Cymru i argymhellion yr adroddiad

3.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gan swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â'u hymatebion i'r argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor ar Fwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllŵg, a oedd yn hollol berthnasol i Swyddfa Archwilio Cymru.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nodwyd y papurau.

4.1 Cyllid Iechyd ar gyfer 2012-13 a thu hwnt: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (27 Ionawr 2014)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Trafod y dystiolaeth

6.1 Bu'r Aelodau'n trafod y dystiolaeth a gafwyd yn gynharach a chytunwyd i ystyried y wybodaeth ychwanegol yn gynnar yn ystod tymor yr haf gyda golwg ar gynnal sesiwn dystiolaeth bellach gyda'r Athro White.

## 7 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

7.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a fyddai'n cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i fynd ar drywydd unrhyw faterion na chawsant eu cynnwys yn ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

## 8 Ymgynghoriad ynghylch cod ymarfer archwilio newydd a datganiad ymarfer

8.1 Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru sesiwn friffio ar yr Ymgynghoriad ar god ymarfer archwilio newydd a datganiad ymarfer. Cytunwyd hefyd i anfon nodyn cyfreithiol ynglŷn â'r ymrwymiad penodol mewn perthynas ag archwilio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac a gafodd yr argymhelliad yn Adolygiad Essex ar newid y swyddogaeth hon ei dderbyn.